

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Cylchlythyr i Deuluoedd a Gweithwyr Proffesiynol ym Mlaenau Gwent



Argraffiad 5: Medi 2025

Croeso i Gylchlythyr Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Blaenau Gwent!

Yma fe welwch lwyth o wybodaeth am ddigwyddiadau/grwpiau lleol, yr hyn y mae ein timau wedi bod yn ei wneud yn ddiweddar, gwybodaeth a chyngor defnyddiol, a llawer mwy!

Bwydo ar y fron

Mae ein cynllun Croeso i Fwydo ar y Fron wedi bod yn tyfu eto! Diolch i Sinema anhygoel Neuadd y Farchnad Brynmawr a The Rustic Stag Brynmawr am gefnogi ein hymgyrch bwydo ar y fron!

Cwrdd â rhai mamau sy'n bwydo ar y fron:

Dewch i weld beth oedd gan rai o'n mamau sy'n bwydo ar y fron i'w ddweud am eu profiadau:

Cwrdd â Steph! Mae hi'n fam o Flaenau Gwent sydd wedi bod yn bwydo ei bachgen bach Milo ar y fron.

'Mae fy nhaith bwydo ar y fron wedi bod â'i uchafbwyntiau a'i isafbwyntiau, a heb gefnogaeth y tîm bwydo ymatebol a'r mamau dw i wedi'u cyfarfod drwy'r grwpiau bwydo, dydw i ddim yn siŵr a fyddwn i'n dal i'w wneud. Maen nhw wedi fy helpu i oresgyn yr adegau pan oeddwn i wedi teimlo'n llethol neu pan oedd Milo yn ei chael hi'n anodd bwydo ac nad oedd yn ennill pwysau. Mae cael y cysylltiad hwnnw gyda fy un bach drwy fwydo ar y fron yn rhywbeth y byddaf yn ei drysori am byth. Dw i'n falch fy mod i wedi dyfalbarhau drwy'r cyfnodau anodd. Roedd y daith yn bendant yn werth chweil.'



Dyma Teddy a'i fam Mia.

Penderfynodd Mia roi llaeth y fron i Teddy pan gafodd ei eni 6 wythnos yn gynnar ac roedd angen iddo dreulio amser yn yr Uned Gofal Dwys i'r Newydd-anedig. Dywedodd Mia wrthym mai'r peth yr oedd hi'n ei garu fwyaf am fwydo ar y fron yw'r berthynas anhygoel sydd ganddi â Teddy sydd bellach yn 18 mis oed ac yn parhau i gael ei fwydo ar y fron.

Mae Mia hefyd yn hoffi peidio â gorfod golchi poteli a pharatoi bwydydd, gan ganiatáu iddi dreulio mwy o amser gyda Teddy a'i bod wedi arbed ffortiwn heb orfod prynu fformiwla.

Da iawn Mia ar eich taith bwydo ar y fron wych - ac yn dal i fynd hefyd!



01495 369610 | fis@blaenau-gwent.gov.uk | www.bgffs.org.uk

Canolfan Blant Integredig, Stryd Fawr, Blaenau. NP13 3BN

Wythnos Bwydo ar y Fron 2025

Cynhaliwyd Wythnos Bwydo ar y Fron y Byd o 1 Awst i 7 Awst 2025. Thema eleni oedd 'Grymuso Rhieni a Galluogi Bwydo ar y Fron'. Roedd ein tîm Dechrau'n Deg anhygoel allan drwy gydol yr wythnos yn hyrwyddo bwydo ar y fron ac yn cefnogi mamau yn y gymuned!

Uchafbwynt yr wythnos i lawer oedd y 'Daith Gerdded gyda Bygis a Phicnic' ym Mharc Bedwellty. Er gwaethaf diwrnod glawog braidd, ymunodd detholiad o rieni â'n tîm oedd yn awyddus i aros yn actif a hyrwyddo bwydo ar y fron ym Mlaenau Gwent! Diolch i bawb a fynychodd, ac a fu'n ddigon dewir i wynebu'r glaw, gwnaethoch chi'r digwyddiad hwn yn un arbennig iawn.



Digwyddiad Cynenedigol

Bydd ein Tîm Dechrau'n Deg anhygoel yn cynnal digwyddiad Cawod Babanod Cynenedigol AM DDIM i bobl feichiog rhwydweithiau cymorth.

Ymunwch â nhw ar 14 Hydref am gyflwyniad gan y fydwraig; sesiwn Holi ac Ateb; gwybodaeth a chyngor gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol; a llawer o bethau am ddim sy'n cynnwys raffl! Allwn ddim aros i'ch gweld chi yno! Eglwys Hope, Glynebwy.

Dydd Mawrth 14 Hydref 2025
4pm – 6pm



Sylw ar Ofal Plant

Gan ddechrau'r tymor hwn, bydd pob un o'n cylchlythyrau yn rhoi sylw i un lleoliad gofal plant ac un gwarchodwr plant. Ar gyfer Hydref 2025, rydym wrth ein bodd yn cynnwys lleoliad a dderbyniodd adroddiad arolygu rhagorol gan AGC yn ddiweddar, ynghyd â gwarchodwr plant newydd ei gofrestru sydd wedi gwneud dechrau gwyach!

Little Stars

Felly heb ragor o oedi... dyma ein lleoliad gofal plant dan sylw ar gyfer Hydref 2025 – Little Stars! Darllenwch beth oedd ganddyn nhw i'w ddweud isod.



Mae Meithrinfa Little Stars Ebwy Fawr wedi bod yn darparu gwasanaethau i deuluoedd ers yr 11 mlynedd diwethaf. Rydym yn gyffrous i fod yn dathlu ein 12fed Pen-blwydd ym mis Hydref yn fuan! Rydym yn hynod falch o'n cyflawniadau ers ein Harolygiad AGC diweddar a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf lle gwnaethom gyflawni pedwar sgôr "Rhagorol" yn y meysydd craidd.

Beth sy'n ein gwneud ni'n arbennig yma ym Meithrinfa Little Stars Ebwy Fawr?

Yn ein meithrinfa, credwn fod pob plentyn yn haeddu dechrau llawen a meithringar i fywyd. Rydym yn darparu gwasanaeth i blant o 6 wythnos i 12 oed. Yr hyn sy'n ein gwneud ni'n wahanol yw ein hymrwymiad dwfn i greu amgylchedd cartrefol lle mae pob plentyn yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei werthfawrogi, ac yn cael ei ysbrydoli bob dydd, a lle mae rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu parchu a bod eu barn a'u dymuniadau'n cael eu gwerthfawrogi.



- Rydym yn canolbwyntio ar dwf personol y plant gan addasu ein dulliau i ddiwallu anghenion, diddordebau a phersonoliaethau unigol y plant.
- Mae gan y staff yma yn Little Stars rinweddau angerddol, creadigol a hyfforddedig iawn er mwyn gallu darparu'r profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl i'r plant yn ein gofal i ffynnu a thyfu.
- Ym mhob un o'n hystafelloedd mae mannau wedi'u creu i fod yn ysgogol, yn gynhwysol ac yn llawn adnoddau gwyach i hyrwyddo chwilfrydedd plant ac annog archwilio trwy chwarae.
- Rydym yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o gyfathrebu a phartneriaethau gyda'n teuluoedd a'n cymuned estynedig gan sicrhau cyfathrebu agored a nodau a rennir ar gyfer taith pob plentyn, gan ddarparu profiadau bywyd go iawn i'r plant hefyd.

Nid gofalu am ein sêr bach yn unig a wnawn, rydyn ni'n hyrwyddo eu potensial, yn dathlu eu cerrig milltir, yn caniatáu iddyn nhw archwilio eu heriau eu hunain ac yn eu helpu i adeiladu'r sylfeini ar gyfer dyfodol disglair a hapus. Yn dilyn ein harolygiad diweddar, rwyf wrth fy modd yn rhannu bod ein meithrinfa wedi derbyn adborth gwyach ac ni allwn fod yn fwy balch o'n tîm. Bob dydd, mae ein staff yn meithrin chwilfrydedd, hyder, ac yn creu mannau diogel lle gall plant ffynnu a datblygu eu taith unigryw. Mae'r canlyniad hwn yn ddatliad o'n gwerthoedd cyffredin rydyn ni wedi'u hadeiladu gyda'n gilydd.

Dewch i weld beth oedd gan rai o'n staff i'w ddweud:

'Dw i'n caru fy swydd gan fy mod yn cael gweld y plant yn tyfu a'u cefnogi i gyrraedd eu cerrig milltir a'u nodau. Rydym fel un teulu mawr ym Meithrinfa Little Stars Ebwy Fawr' - Madison Morgan,



'Dw i'n caru fy swydd, nid yn unig oherwydd bod fy nghyd-aelodau staff yn gefnogol ac yno i mi bob amser os oes ei angen arnaf ond hefyd oherwydd fy mod wrth fy modd yn rhan o amgylchedd diogel a gofalgwr y mae plant wrth eu bodd yn mynychu. Dod i mewn yn y boreau a rhoi cwtsh i'r plant yw fy hoff beth' - Alisha Marie Sutton thing' - Alisha Marie Sutton

'Dw i wedi gweithio yn Little Stars ers 9 mlynedd. Mae gweithio mewn meithrinfa yn brofiad cynnes a gwerth chweil sy'n dod â llawenydd a phwrpas i bob dydd. Mae'n fan lle mae chwerthin yn atseinio, dysgu'n blodeuo, a'ch ymdrechion yn helpu i lunio'r dyfodol!' - Shannon Willis



Jollies Childminding

Ein gwarchodwr plant dan sylw y tymor hwn yw Kirsty yn Jollies Childminding. Mae Kirsty wedi agor ei busnes gwarchod plant ym Mrynawr yn ddiweddar ac mae hi wedi dechrau gweithio ar y tîm i oedolion. Edrychwch ar yr hyn oedd ganddi i'w ddweud isod!



'Dw i wastad wedi bod â diddordeb mawr mewn gweithio gyda phlant, o fod yn fy arddegau yn gwarchod plant i deuluoedd lleol i fy rolau blaenorol yn gweithio mewn ysgolion a meithrinfeydd yn ogystal â chyfnod byr fel gofalgwr maeth. Dw i wastad wedi caru'r ffordd mae plant yn gweld y byd a sut y gallwn ni eu cefnogi i ddod yn unigolion gwyb sy'n caru archwilio, chwarae a dysgu.'

Cymerais seibiant o ofal plant gan fy mod eisiau ehangu fy nheulu fy hun. Ychydig dros 3 blynedd yn ôl roeddwn i'n ffodus i gael fy mhlentyn ieuengaf a rhoddodd hynny'r ysgogiad i mi wireddu fy mreuddwyd o gael fy musnes gwarchod plant fy hun lle gallwn chwarae rhan ganolog wrth ofalu am blant yn llawn amser a rhoi ar waith yr holl sgiliau roeddwn i wedi'u dysgu dros y blynyddoedd.


Dyna pryd y cysylltais â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd BG i gychwyn y broses. Treuliais flwyddyn yn cael mwy o gymwysterau gofal plant yn ymwneud yn benodol â gwarchod plant a rhedeg busnes a hefyd yn sefydlu fy nghartref i fod yn lle croesawgar i groesawu'r holl blant bach newydd hefyd.

Wrth edrych ymlaen, dw i'n gyffrous i allu croesawu mwy o blant a'u teuluoedd i'n teulu Jollies ac alla i ddim aros i wyllo'r plant yn dysgu ac yn tyfu. Mae'n ffrind o'r fath gallu cefnogi, meithrin ac addysgu cenedlaethau'r dyfodol yn ein hardal leol, wrth ddarparu gwasanaeth gwerthfawr i deuluoedd lle maen nhw'n gwybod bod aelodau mwyaf gwerthfawr eu teulu yn cael gofal a'u gwarchod yn y ffordd y dylen nhw gael gofal ac yn y ffordd y byddwn i eisiau i fy mhlant fy hun gael eu gofalu amdanyn nhw.



Fy nghynlluniau ar gyfer y dyfodol yw treulio blynyddoedd lawer yn helpu i lunio meddyliau bach mewn lleoliad lle mae plant o bob gallu yn ffynnu ac yn dod yn oedolion ifanc cryf, gwydn a hyderus. Dw i bob amser yn ymdrechu i sicrhau fy mod yn darparu lleoliad diogel, hwyliog lle rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog plant i ddod yn nhw eu hunain go iawn. Rydym yn hyrwyddo unigoliaeth a chynhwysiant ac yn gwerthfawrogi pob hunaniaeth.

Tra yn Jollies mae plant yn profi lluo o weithgareddau ac yn cael llawer o gyfleoedd i fynd allan ac archwilio ein hardal leol a dod yn rhan o'n cymuned ehangach. Boed hynny trwy ddysgu trwy chwarae neu ddiwrnodau allan yn archwilio natur ac ehangu eu gwybodaeth, gan ddysgu am y byd o'u cwmpas.



Mae'r plant sy'n ymuno â ni yn gallu deall bod eu lleisiau'n bwysig a bod ganddynt hawl i ddweud beth sy'n digwydd iddynt a bod ganddynt lais yn y ffordd maen nhw'n dysgu sy'n galluogi plant i ddod yn ddysgwyr hyderus a all ymgymryd ag unrhyw un o heriau bywyd a llwyddo wrth iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Wedi'r cyfan, i mi nid dim ond swydd yw gwarchod plant, mae'n ffordd o fyw. Mae'n anrhydedd ac yn bleser llwyr bod pobl yn ymddiried ynom i ofalu am y plant am rai o'u blynyddoedd mwyaf ffurfiannol a dod yn rhan fach o'u bywydau rhyfeddol.

Haf o Chwarae

Diwrnod Chwarae

Ar y 6ed o Awst, 2025, croesawodd ein Tîm Chwarae anhygoel, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, dros 1,300 o ymwelwyr i Dŷ a Pharc Bedwellty i ddathlu Diwrnod Chwarae Cenedlaethol — ein presenoldeb mwyaf erioed!

Cyflwynodd y tîm ddiwrnod gwych yn llawn hwyl a chreadigrwydd, yn cynnwys chwarae blêr, llithro a llithren, celf a chrefft, Plant Bach Gwyllt, a chymaint mwy.

Ymunodd amrywiaeth o wasanaethau lleol gwych â ni hefyd a fanteisiodd ar y cyfle i gysylltu â'r gymuned ac arddangos yr hyn maen nhw'n ei gynnis.

Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth draw a gwneud y diwrnod yn un mor arbennig. Mae'r digwyddiadau hyn yn ffynnu oherwydd eich cefnogaeth — ni allem ei wneud hebdoch chi!

Edrychwch ar y lluniau hyn i weld rhywfaint o'r hwyl a gawsom!



Chwarae Mynediad Agored

Drwy gydol yr haf, cyflwynodd ein tîm (gan gynnwys 8 o'n 20 o wirfoddolwyr chwarae) raglen chwarae gwyliau haf 5 wythnos gan gynnig 33 sesiwn anhygoel ar draws 7 lleoliad gwahanol, gan gynnwys safle newydd yng Nghwmtyleri! Eleni gwelsom dros 1000 o blant yn ymuno â'n sesiynau gyda digon o weithgareddau chwaraeus ar gael gan gynnwys; sesiynau thema gyda gemau; celf a chrefft; chwarae tywod a dŵr; chwarae blêr; y maes chwarae dychmygol; ac amrywiaeth o chwaraeon. Roedd y tîm chwarae hefyd yn gallu darparu amrywiaeth o fyrbrydau ym mhob sesiwn, gan gynnwys: brechdanau, ffrwythau ffres, bariau grawnfwyd a dŵr potel.

Drwyddo draw, haf llwyddiannus arall o Chwarae Mynediad Agored! Hoffai'r tîm Chwarae hefyd ddiolch i Gyngor Tref Nantyglo a Blaenau am ariannu sesiynau ym Mharc Canolog Cwmcelyn, Blaenau.

Grant Chwarae

Eleni roedd y tîm Chwarae yn hynod ffodus i allu cynnig Grant Chwarae i grwpiau cymunedol lleol; lleoliadau gofal plant a chwarae; a grwpiau rhiant a phlentyn bach. Cynlluniwyd y grant i ddarparu cefnogaeth ariannol ar gyfer mentrau a greodd brofiadau chwarae cyfoethog a difyr i blant ac a roddodd gyfle gwych i grwpiau/ lleoliadau wireddu syniadau arloesol! Llwyddom i ddyfarnu cyfanswm o **£2,715** mewn cyllid eleni. Gweler rhai o'r straeon llwyddiant anhygoel isod:



Eglwys Bedyddwyr Ebenezer

Defnyddiodd Eglwys Bedyddwyr Ebenezer eu harian i gynnal diwrnod chwarae'r haf! Gweithiodd y tîm yn Ebenezer yn galed i greu lle diogel i deuluoedd fwynhau sesiwn chwarae am ddim gyda'u plant. Darparodd y tîm fwyd am ddim i'r plant a lluniaeth i'r rhieni. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol gyda dros 100 o bobl yn mynychu! Cafodd teuluoedd hyd yn oed fag anrhegion i fynd adref gyda nhw, gyda mwy o weithgareddau hwyliog i'r teulu eu gwneud gyda'i gilydd! Diolch i'r tîm anhygoel yn Eglwys Bedyddwyr Ebenezer!

Gwarchodwr plant

Defnyddiodd un o'n gwarchodwyr plant yr arian i brynu rhai adnoddau gan gynnwys pwll gwneud tân, adeiladu den a thŷ pryfed. 'Mae'r plant wedi mwynhau chwarae gyda'r offer gwerau yn fawr, adrodd straeon o amgylch y pwll gwneud tân ac adeiladu'r tŷ pryfed. Maen nhw wedi treulio oriau'n casglu dail a ffyn i ychwanegu i'r tŷ pryfed, yna eistedd yn aros i weld a oes ganddyn nhw unrhyw bryfed yn byw ynddo.'



Diolch yn fawr iawn

Diolch yn fawr iawn gan yr holl dîm i bob un person a ddaeth i'n digwyddiadau chwarae. Heb gefnogaeth cymunedau ni fyddai ein sesiynau chwarae mor llwyddiannus! Yn olaf, hoffem ddiolch yn fawr iawn i'n gwirfoddolwyr chwarae anhygoel. Ni fyddem yn gallu cynnal cymaint o sesiynau anhygoel drwy gydol yr haf heb y bobl anhygoel hyn yn rhoi o'u hamser eu hunain! – Diolch!

Syniadau Diwrnod Glawog

Wrth i'r gaeaf agosáu, rydyn ni'n gwybod y bydd tywydd Cymru yn dod â rhai dyddiau glawog inni. Gall cadw'r teulu'n actif yn ystod y dyddiau hyn fod yn her ond mae'n bwysig iawn i gefnogi eu hiechyd a'u lles. Dyma rai syniadau i'ch helpu i gadw'ch teulu'n actif yn ystod y dyddiau hyn:

Gweithgareddau dan do i chi a'ch teulu:

- Cynnal parti dawns teuluol – Gallwch ddod o hyd i lawer o fideos Just Dance ar Youtube i'w dilyn
- Chwarae cuddio
- Rhowch gynnig ar rai chwaraeon dan do gyda'r teulu
- Creu cystadleuaeth dan do gyda'ch plant
- Ymestyn gyda'ch teulu – mae yna lawer o diwtorialau ar-lein y gallwch eu dilyn

Gweithgareddau awyr agored i chi a'ch teulu:

- Dewch o hyd i'r pyllau mwdlyd hynny a chreu pasteiod mwd 'blasus' gyda'ch gilydd
- Adeiladwch ogof gyda'ch rhai bach a chuddiwrch rhag y glaw
- Ewch ar helfa sborion yr Hydref – chwiliwch am ddail o wahanol liwiau; moch pinwydd; mes neu byllau
- Gwisgwch eich esgidiau glaw a'ch dillad gwrth-ddŵr a neidiwch i'r pyllau hynny!



Rysait - Chilli Con Carne

Cynheswch y gaeaf hwn gyda tsili con carne iachus - yn llawn protein, ffibr, a sbeisys beiddgar. Mae'n bryd cysurus, maethlon sy'n berffaith ar gyfer nosweithiau oer ac yn hawdd i'w goginio mewn sypiau ar gyfer wythnosau prysur.

Cynhwysion:

- > 300g o gig eidion mâl heb lawer o fraster
- > 1 winwnsyn mawr, wedi'i dorri'n fân
- > 2 ddarn o garleg, wedi'u torri'n fân
- > 400g o domatos tun wedi'u torri
- > 2 lwy fwrdd o biwri tomato
- > 2 lwy de o bowdr chili (gallwch ychwanegu mwy neu lai, yn dibynnu ar ba mor sbeislyd rydych chi ei eisiau!)
- > 1 llwy de o gwmin mâl
- > 1 pupur coch, wedi'i ddeisio
- > 2 lond llaw o fadarch cwpan neu fotwm wedi'u sleisio
- > 410g o ffa ffrengig, wedi'u draenio (ffa tun yw'r hawsaf i'w defnyddio!)
- > 150ml o stoc llysiau neu gyw iâr isel mewn halen
- > 300g o reis gwyn neu frown
- > 1 pinsied o bupur du mâl (ychwanegwch i'ch chwaeth eich hun)

Dull:

1. Cynheswch sosban fawr neu badell ffrio ac ychwanegwch y cig eidion mâl, llond llaw ar y tro, gan ei goginio nes ei fod wedi brownio. Yna, ychwanegwch y winwnsyn a'r garleg a choginiwch am 2 i 3 munud arall
2. I'r badell, ychwanegwch y tomatos wedi'u torri, piwri tomato, sbeisys, pupur coch, madarch, ffa ffrengig a stoc
3. Cymysgwch yn dda a dod ag ef i'r berw. Ar ôl hynny, gostwng y gwres a mudferwch yn ysgafn am 15 i 20 munud
4. Yn y cyfamser, coginiwch y reis yn ôl y cyfarwyddiadau ar y pecyn
5. Sesnwch y tsili gyda phupur i'ch chwaeth eich hun a gweinwch gyda'r reis wedi'i ferwi

Gallwch chi roi cig eidion yn lle twrci mâl, cig llysieuol mâl neu hyd yn oed ffa ychwanegol! Os ydych chi'n hoffi pethau'n boeth iawn, gallwch chi ychwanegu sbeisys fel Pupur Cayenne, Paprika neu hyd yn oed Haenau Tsili! Mae Tsili Con Carne hefyd yn amlbwrpas iawn, gallwch chi ei weini gyda thatws wedi'u pobi, sglodion cartref neu basta!

Diogelwch Ar-lein

Gadewch i ni siarad am gemau fideo! Mae yna lawer o sgysiau am gemau fideo a'r manteision a'r anfoneision sy'n gysylltiedig â nhw. Yn yr adran hon, rydyn ni'n mynd i archwilio rhai o beryglon tair o'r gemau mwyaf poblogaidd i blant ac edrych ar yr hyn y gallwch chi ei wneud i helpu i gadw'ch plentyn mor ddiogel â phosibl wrth chwarae'r rhain!

Minecraft

- Gall Minecraft fod yn gêm frawychus i chwaraewyr ifanc. Er bod gan y cymeriadau ymddangosiad cartŵn, gall y gerddoriaeth a'r ymladd brawychus fod yn frawychus i chwaraewyr ifanc. Er mwyn osgoi cynnwys 'gelynyddion', gallwch ddewis modd creadigol neu heddychlon y gêm. Mae hyn yn rhoi cyfle i blant adeiladu ac archwilio agweddau ar y gêm heb unrhyw ymladd na'r bygythiad y bydd eu gwaith yn cael ei ddifrodi
- Mae gan Minecraft y swyddogaeth o ymuno â gweinyddion cyhoeddus a rhyngweithio â dieithriaid. Gall hyn, wrth gwrs, ddod â risgiau. Gall hefyd arwain at bobl eraill yn 'griefio'; lle mae rhywun yn fwriadol yn dinistrio adeiladau chwaraewr arall. I osgoi hyn, gall chwaraewyr gynnal eu gweinydd preifat eu hunain, lle gallant reoli pwy sy'n gallu mynd i mewn a gwahardd unrhyw un na ddylai fod yno. Fodd bynnag, mae hyn yn costio ffi fisol.

Roblox

- Mae Roblox yn cynnig ystod eang o reolaethau rhieni i'ch helpu i gadw'ch un bach yn ddiogel. I'ch helpu i reoli eu profiad ar-lein, gallwch osod ystodau oedran ar gyfer y bobl sy'n gallu cysylltu â'r cyfrif. Gallwch hefyd gau blychau sgwrsio cyhoeddus a gwneud proffiliau'n breifat. Gall hyn helpu i leihau'r posibilrwydd y bydd dieithriaid yn cysylltu â'ch plentyn ar-lein. Gall hefyd fod o fudd dysgu'ch plentyn sut i rwystro ac adrodd am chwaraewyr eraill, bydd hyn yn eu helpu i gael profiad hapusach.
- Er bod Roblox yn cynnig amrywiaeth o reolaethau rhieni, mae yna amrywiaeth o gynnwys amhriodol yn y gêm o hyd. Gallwch osod rheolaethau rhieni i leihau'r risg y bydd eich plentyn yn gweld hyn, ond mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r holl gemau llai sydd gyda chynnwys 18+. Gyda phlant iau, efallai y byddai'n fuddiol chwarae'r gêm gyda'ch gilydd

Zepeto

Mae Zepeto ychydig yn wahanol i'r ddwy gêm arall. Mae'n ap sy'n tyfu'n gyflym sy'n cyfuno rhwydweithio cymdeithasol â llwyfan gemau. Gall chwaraewyr archwilio byd rhithwir, chwarae gemau a rhyngweithio â dieithriaid.

- Mae Zepeto wedi'i anelu at blant 14 oed a hŷn, fodd bynnag, nid oes gwirio oedran na rheolaethau rhieni ar yr ap. Mae yna hefyd ystod eang o gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr a allai gynnwys themâu sy'n anaddas i blant. Pan fyddwch chi'n lawrlwytho'r ap, mae'r gosodiad diofyn hefyd yn caniatáu i unrhyw un ar yr ap anfon neges at y cyfrif. I fynd i'r afael â rhai o'r pryderon, gallwch newid y gosodiadau preifatrwydd i gyfyngu ar bwy all anfon neges at y cyfrif ond nid oes unrhyw reolaethau i gyfyngu ar y cynnwys. Dylech annog eich plant i fod yn agored gyda'r cynnwys maen nhw'n ei weld ar yr ap a monitro'r hyn y gallent gael eu hamlygu iddo
- Pryder arall gyda Zepeto yw pa mor gaethiwus yw'r ap a'r gallu i wario arian go iawn! Ar Android ac Apple, gallwch osod cyfyngiadau ar amser sgrin dyddiol ar apiau. Gall hyn helpu plant i reoli eu hamser ar yr ap. Gallwch hefyd ychwanegu system gymeradwyo prynu i sicrhau nad yw'ch rhai bach yn gwario unrhyw arian na ddylent fod ar yr apiau.

Am gyngor mwy manwl, dilynwch 'Wake up Wednesday' ar Facebook, Instagram neu X.

Llwybrau

Wedi'i lansio ym mis Ebrill eleni, mae rhaglen Llwybrau eisoes yn cael effaith ystyrlon. Mae'r tîm wedi ehangu'n ddiweddar gyda dau aelod staff newydd, gan ganiatáu iddynt gefnogi hyd yn oed mwy o gyfranogwyr. Mae llawer o unigolion yn dechrau ar leoliadau gwirfoddol, gan ennill profiad ymarferol gwerthfawr. Cefnogir cyfranogwyr bob cam o'r ffordd, gyda mynediad at hyfforddiant wedi'i ariannu'n llawn gan gynnwys Diogelu, Trin â Llaw, a Chymorth Cyntaf. Mae'r fenter hon wedi'i chynllunio i helpu pobl i feithrin hyder, datblygu sgiliau newydd, ac yn y pen draw symud dysgwyr i gyflogaeth â thâl.

Mae'r rhaglen yn cynnig pedwar llwybr wedi'u teilwra i gyd-fynd â gwahanol ddiddordebau a nodau gyrfa: Camau i Ofal Plant, Sgiliau Bwyd a Maeth, Cyflwyniad i lechyd a Gofal Cymdeithasol a Chyflogadwyedd. P'un a ydych chi'n edrych i ddechrau gyrfa newydd, ennill profiad ymarferol, neu archwilio'ch opsiynau yn unig, mae hwn yn gyfle gwych i gymryd rhan. Mae'r holl gyrsiau am ddim ac yma i'ch cefnogi chi a'ch anghenion unigol.

Mae cyrsiau newydd cyffrous ar y gweill y mis Medi hwn - peidiwch â cholli allan, cysylltwch i ddarganfod beth sydd ar gael yn agos atoch chi! Am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at y tîm yn: FIS@blaenau-gwent.gov.uk gyda'ch enw a'ch rhif!

Funded by UK Government  Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU



 **Pathways Llwybrau**

Cyrsiau i oedolion:
**Coginio | Cyflwyniad i lechyd a Gofal Cymdeithasol
| Datblygiad Plant | Gwneud i Hyder Gyfrif**

Cyrsiau eraill a gymeradwywyd:
Siaradwch â aelod o'r staff am fanylion

Ffôn 01495 369610 neu e-bost: pathways.info@blaenau-gwent.gov.uk

Derbyniadau i ysgolion ac Addysg Gymraeg

Mae dyddiadau derbyn i ysgolion ar gyfer 2026 wedi cael eu cyhoeddi! Dewch o hyd i'r holl ddyddiadau perthnasol yma:

Ydych chi wedi ystyried addysg cyfrwng Cymraeg i'ch plentyn?

Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cynnig cyfle unigryw i blant ddod yn ddwyieithog, gan agor drysau i fwy o opsiynau gyrfa, profiadau diwylliannol a manteision gwybyddol.

Pam Dewis Addysg Cyfrwng Cymraeg?

- Mae plant yn dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Nid oes angen siarad Cymraeg gartref — mae plant yn dysgu'n naturiol yn yr ysgol!
- Mae dwyieithrwydd yn hybu datblygiad yr ymennydd a sgiliau dysgu
- Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dilyn yr un cwricwlwm ag ysgolion cyfrwng Saesneg
- Mae'n borth i ddiwylliant, treftadaeth a hunaniaeth Cymru

Mae derbyniadau ar gyfer lleoedd meithrin cyfrwng Cymraeg yn agor ar yr 8fed o Fedi ac yn cau ar yr 17eg o Hydref. Peidiwch â cholli'r cyfle i roi dechrau dwyieithog mewn bywyd i'ch plentyn! Fodd bynnag, nid yw'n rhy hwyr i ystyried addysg cyfrwng Cymraeg os yw'ch plentyn eisoes yn y feithrinfa neu'r ysgol gynradd! Dysgwch am addysg cyfrwng Cymraeg ym Mlaenau Gwent yma: <https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/schools-learning/becoming-bilingual-1/>

Rhowch rodd dwyieithrwydd a dechrau cryf mewn bywyd i'n plant!



Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Dyddiadau Pwysig

Dyddiadau allweddol ar gyfer Derbyniadau Ysgol 2026

Dyddiad	Beth Sy'n Digwydd
Meithrin	
8 Medi 2025	Cylch derbyn Meithrin yn dechrau
17 Hydref 2025 (5yp)	Dyddiad cau ceisiadau Meithrin
24 Tachwedd 2025	Dyddiad cynnig ar gyfer lleoedd Meithrin
Dosbarth Derbyn	
13 Tachwedd 2025	Cylch derbyn Dosbarth Derbyn yn dechrau
15 Ionawr 2026 (5yp)	Dyddiad cau ceisiadau Dosbarth Derbyn
16 Ebrill 2026	Dyddiad cynnig Dosbarth ar gyfer lleoedd Derbyn
Uwchradd	
19 Medi 2025	Cylch derbyn Uwchradd yn dechrau
31 Tachwedd 2025 (5yp)	Dyddiad cau ceisiadau Uwchradd
2 Mawrth 2026	Dyddiad cynnig ar gyfer lleoedd Uwchradd

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r Tim Derbyniadau ar:
Ffôn: 01495 369502 / 369524 or E-bost: schooladmissions@blaenau-gwent.gov.uk

Neu fel arall gallwch wneud cais am le ysgol ar-lein. I lenwi cais ar-lein ewch i'r wefan ddilynol: https://citizenportal.blaenau-gwent.gov.uk/CitizenPortal_LIVE/en

Gwefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Ydych chi wedi cael cyfle i edrych ar ein gwefan newydd eto? Gallwch nawr ddod o hyd i restr gyfredol o grwpiau rhieni a phlant bach yn yr ardal; rhestr o'r holl ddarparwyr gofal plant yn yr ardal; cyngor ar gynlluniau i'ch helpu i dalu am ofal plant; cwestiynau cyffredin; a rhestr o ddigwyddiadau sydd i ddod!

Ymwelwch â ni yn: <https://bgfis.org.uk/>

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol:

-  Blaenau Gwent Family Information Service
-  Blaenau_Gwent_fis
-  FIS_BG